Ysgol Iolo Morganwg

Polisi Atal Bwlio

Yn Ysgol Iolo Morganwg dymunwn i'n hysgol fod yn le ble gall pob plentyn deimlo'n ddiogel bob amser. Ceisiwn greu'r teimlad o 'un teulu hapus' o fewn yr ysgol a bod pob plentyn â rhan bwysig i'w chwarae o fewn y 'teulu' hwn. Wrth gwrs, fel gyda phob teulu, fe fydd adegau pan fydd plant yn cweryla - mae hyn yn rhan o fywyd ysgol ac yn dderbyniol. Yr hyn mae'n rhaid sicrhau yw nad oes plentyn yn cael cam cyson gan blentyn neu grŵp o blant - bwlio yw hyn.

1.1 Diffiniad o fwlio

Cam-ddefnydd bwriadol o rym anghyfiawnadwy a di-alw amdano yw gormes y bwli.
Fe all barhau dros gyfnod hir a gall achosi loes gorfforol, emosiynol neu feddyliol i'r dioddefydd. Mae'n treisio hawliau a rhyddid y sawl sydd o dan ei ormes.
Gall unigolyn neu grŵp fod yn gyfrifol am fwlio. Yn nhermau'r ysgol hon, credir fod bwlio yn amharu ar ethos yr ysgol ac felly yn groes i bopeth yr ydym yn gweithio tuag ato.

1.2 Camau cyffredinol er mwyn atal bwlio

1. Creu awyrgylch hapus a chynnes o fewn yr ysgol ble gall pob plentyn deimlo'n ddiogel.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

2. Gwneud i'r plant sylweddoli ein bod, fel athrawon, yn gofalu amdanynt yn ogystal â'u dysgu ac ein bod bob amser yn barod i wrando a helpu.
3. Gwneud rhieni'n ymwybodol fod polisi 'drws agored' yn yr ysgol ac ein bod bob amser yn barod i wrando ar unrhyw broblemau sydd yn eu poeni ac yn barod i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn os yn bosibl.
4. Gwneud rhieni'n ymwybodol o'r safonau o ddisgyblaeth a ddisgwylir yn yr ysgol a'r hyn fydd yn digwydd os na chedwir y safonau hyn.
5. Sicrhau fod y Prifathro yn derbyn gwybodaeth am unrhyw gŵyn o fwlio gan riant neu blentyn.
6. Sicrhau fod goruchwyliaeth ddigonol ar gael yn ystod y dydd o fewn y dosbarth ac allan ar yr iard.
7. Y Prifathro i ddelio â'r broblem i ddechrau gan obeithio y bydd hyn yn datrys y broblem. Os bydd parhad yna bydd yn rhaid cysylltu â rhieni'r ddwy ochr er mwyn trafod strategaeth. Os na fydd gwelliant yna bydd rhaid meddwl yn nhermau gwaharddiad.
8. Bydd rhaid i bob athro/athrawes fod yn ymwybodol y gall bwlio fynd ymlaen o fewn y dosbarth neu yn ystod amseroedd egwyl heb iddynt glywed am ddim. Bydd rhaid iddynt fod yn effro i arwyddion o newidiadau anghyffredin mewn unigolyn.

Canllawiau cyffredinol yw y rhain gan obeithio na fydd angen i ni yn Ysgol Iolo Morganwg fyth eu dilyn.

Mae Ysgol Iolo Morganwg yn 'ysgol drws agored 'ac mae croeso i rieni i gysylltu â'r ysgol unrhyw bryd am unrhyw fater. Mae'r rhieni yn ymwybodol o hyn.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Mae bwli bob amser yn berson cyfrwys ac nid yw'n cyhoeddi ei fod yn bwlio rhywun. Gyda bwlio, yn aml iawn, yr athrawon fydd y rhai olaf i fod yn ymwybodol fod plentyn yn cael ei fwlio. Bydd gwell siawns i rieni sylwi fod rhywbeth yn bod. Anogir y rhieni'n gryf i gysylltu â'r ysgol yn syth os ydynt yn teimlo fod problem o unrhyw fath yn effeithio are eu plentyn. Os nad yw'r ysgol yn ymwybodol fod problem yna ni ellir disgwyl iddynt wneud rhywbeth ynglŷn â'r broblem. Os derbynith y Prifathro wybodaeth gan rieni am broblem sy'n poeni eu plentyn yna delir â'r broblem yn ddi-oed.

1.3 Arwyddion o fwlio

- Plentyn yn troi'n fewnblyg
- Plentyn yn newid cymeriad
- Olion cam-drin corfforol
- Amharodrwydd i ddod i'r ysgol
- Amharodrwydd i fynd allan i chwarae
- Safon gwaith yn dirywio

1.4 Sicrwydd i'r un sy'n cael ei fwlio

- Parodrwydd aelod o'r staff i wrando cwyn
- Sicrwydd o gyfrinachedd
- Gweithredu mewn cydweithrediad â'r plentyn

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- Monitro'r canlyniad dros gyfnod o amser

- Caniatau i eraill ddod â'r mater gerbron aelod o'r staff

1.5 Ymdrin â'r un sy'n bwlio

- Rhoi cyfle teg iddo / iddi ddweud ei ochr / hi

- Egluro'r canlyniadau posibl a'r gosb

- Rhoi cosb yn ôl canllawiau'r ysgol

- Pwysleisio mai un cyfle sydd i'w gael cyn ymateb yn fwy difrifol

1.6 Camau wrth ddelio â bwli

Bydd y camau hyn yn rhedeg mewn trefn os fydd angen cymryd cam ymhellach bob tro.

- Un cyfle i newid ei agwedd

- Cofnodi'r weithred

- Cysylltu â'r rhieni

- Monitro ac adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd

- Cysylltu â'r llywodraethwyr

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- Cysylltu â swyddogion yn Neuadd y Sir

- Diarddel y plentyn

1.7 Cyfrifoldebau ac ystyriaethau ymarferol i wrthsefyll gormes y bwli

2.0 Rhieni

Dylai'r rhieni:

- gysylltu â'r ysgol os ydym ni'n gwybod neu'n amau fod bwlio'n digwydd
- annog plant i beidio bod yn ymosodol tuag at blant eraill
- gefnogi'r ysgol os bydd angen gweithredu ymhellach

2.1 Disgyblion

Dylai'r disgyblion:

- ymddiried y gwnaiff y staff weithredu os bydd plant yn cael eu bwlio
- ddeall bod canlyniad i bob gweithred
- hysbysu'r staff os ydynt hwy neu un o'u ffrindiau yn cael eu bwlio
- beidio a sefyll o'r neilltu a gwneud dim pan welant fod bwlio'n digwydd
- geisio helpu a bod yn garedig i eraill bob amser

2.3 Staff addysgu ac arolygwyr amser cinio

Dylai'r staff:

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- greu amser i wrando ar blant, gan gymryd yr hyn a glywant o ddifrif a sicrhau na fydd y plentyn yn cael ei waradwyddo nac yn dioddef embaras
- bod yn ymwybodol o'r mannau yn yr ysgol lle gall ymddygiad treisgar ddigwydd
- sefydlu cyfleoedd rheolaidd i drafod bwlio yn y dosbarth
- ganmol ymddygiad da yn rheolaidd
- archwilio eu hymddygiad eu hunain i sicrhau nad ydynt yn euog o fwlio
- sicrhau bod popeth a wneir yn cyfleu'r neges 'Dyw bwlio ddim yn iawn'
- gysylltu â'r rhieni yn syth os oes unrhyw amheuaeth o fwlio yn digwydd
- annog y syniad o gyfrifoldeb cyfun dros berchnogaeth y broblem.

2.4 Llywodraethwyr

Dylai'r llywodraethwyr:

- wneud yn siŵr eu bod yn deall ac yn gyfarwydd â'r polisi bwlio
- gefnogi'r staff wrth iddynt weithredu'r polisi
- chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adolygu a chynnal y polisi

Cytunwyd gan y llywodraethwyr ar……..

Adolygir ar……

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Anti Bullying Policy

Summary of the policy

Introduction

A school should be an environment where a child feels safe and secure at all times. A feeling of 'one happy family' should be created within the school and the children should feel that they have an important part to play to maintain that 'family' feeling. As within all families, there will be incidents where children fall out or quarrel - this is part of school life and is acceptable. What is not acceptable is a child being constantly harassed by another child or a group of children – this is bullying

General Aims

1. To create a warm, happy atmosphere within the school where a child can feel safe and secure.
2. Create awareness in the children that we care for them as well as teach them and that there is always someone that is prepared to listen and help.
3. Make parents aware that there is an 'open door' policy at the school and that we are always prepared to listen to any problem involving their child and will do our best to deal with it immediately.
4. Make the parents aware of the discipline standards expected at school and the steps taken if these are not adhered to.
5. Ensure that there is sufficient during the day within the classroom and out on the yard.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

6. Ensure that the Headteacher is made aware of any complaint of bullying from a child or parent.
7. The Headteacher will deal with any bullying incidents initially hopefully solving the problem. Should the bullying continue, then both sets of parents must be contacted in order to discuss further action. If this fails, then we must involve the Governors and the authority with the possibility of suspension or expulsion.
8. All staff must be made aware of the possibility that they may not realise that bullying could be taking place within the classroom or on the yard. They will have to be vigilant regarding any unusual changes in a child's behaviour.

These are general guidelines and we hope that we at Ysgol Iolo Morganwg will never need to address them.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image